# Agenda - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Hydref 2019

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6363

SeneddNHAMG@cynulliad.cymru

## Cyhoeddus 09.15 - 09.20

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Papurau i'w nodi

### 2.1 Gohebiaeth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru - Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf

(Tudalennau 1 - 5)

Dogfennau atodol:

Llythyr

### 2.2 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a'r Gweinidog Addysg - Cyfarfod pedairochrog â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

(Tudalennau 6 - 7)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**2.3 Gohebiaeth gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft**

(Tudalen 8)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**2.4 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig – Cadeirydd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru**

(Tudalennau 9 - 10)

Dogfennau atodol:

Llythyr

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod hwn

## Preifat 09.20 – 12.00

## 4 Sesiwn ragarweiniol ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft Cymru 2020 – 2040

(09.20- 09.30) (Tudalennau 11 - 13)

Graeme Purves, Cynghorydd Arbenigol i'r Pwyllgor

Elfyn Henderson, Uwch-ymchwilydd - Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dogfennau atodol:

Papur briffio (Saesneg yn unig)

## 5 Briffio ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft Llywodraeth Cymru 2020 – 2040 – sesiwn 1

(09:30–10:30)

Neil Hemington, Pennaeth Cynllunio - Llywodraeth Cymru
Jon Fudge, Pennaeth Polisi Cynllunio - Llywodraeth Cymru

## 6 Briffio ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft Llywodraeth Cymru 2020 – 2040 – sesiwn 2

(10.30 – 12.00) (Tudalennau 14 – 19)

Graeme Purves, Cynghorydd Arbenigol i'r Pwyllgor

Dogfennau atodol:

Papur (Saesneg yn unig)

Eitem 2.1

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru

10 Hydref 2019

Annwyl Sophie

**Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Awst 2019 yn gwahodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ('y Pwyllgor') i wneud awgrymiadau o ran adroddiadau, dogfennau ac argymhellion yr hoffech eu hystyried o bosibl wrth ddrafftio'ch adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf.

Rwyf wedi amlinellu isod y gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i gwblhau, neu yn ei wneud ar hyn o bryd, sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch meysydd blaenoriaeth chi. Rwyf hefyd wedi rhoi blas o waith y Pwyllgor sy'n gysylltiedig â Brexit, a allai fod o ddiddordeb i chi.

**Newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio**

Newid yn yr hinsawdd yw un o'r heriau byd-eang mwyaf yr ydym yn eu hwynebu. Gyda hyn mewn golwg, ar ddechrau'r Pumed Cynulliad, cytunodd y Pwyllgor y byddai newid yn yr hinsawdd yn un o'i feysydd blaenoriaeth ar gyfer craffu arno.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
0300 200 6565

Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad blynyddol cyntaf ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran lliniaru effeithiau newid hinsawdd. Cafodd yr adroddiad ei lywio gan Grŵp Cyfeirio Arbenigol y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad na fyddai Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei thargedau ar gyfer lleihau allyriadau erbyn 2020 (fel y nodwyd yn ei Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd), a gwnaeth argymhellion ar draws meysydd polisi allweddol, gan gynnwys tai a thrafnidiaeth. Nododd hefyd ddisgwyliadau'r Pwyllgor ynghylch y broses ar gyfer datblygu cyllidebau carbon o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd y Pwyllgor ei Adroddiad ar Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018. Yn yr adroddiad hwnnw, gwnaethom ganmol Llywodraeth Cymru am y dystiolaeth gynhwysfawr a gynhwyswyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddio, a oedd yn dangos sut y llywiodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf 2015) ei ddull gweithredu. Roedd y Pwyllgor yn argymell, ymhlith pethau eraill, y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei tharged ar gyfer 2050 ac adrodd yn ôl i'r Cynulliad cyn gosod ei thrydedd cyllideb garbon.

Gwnaeth y Pwyllgor hefyd ddarn byr o waith i lywio datblygiad Cynllun Cyflawni Carbon Isel cyntaf Llywodraeth Cymru ac ysgrifennodd at Lywodraeth Cymru yn amlinellu ei ganfyddiadau. Byddwn yn ymgorffori gwaith craffu ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran cyflawni ei Chynllun a'i tharged 2020 yn ein gwaith parhaus ar newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio.

Cyhoeddir ein hail adroddiad blynyddol ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd yn ddiweddarach y tymor hwn.

**Tai**

Mae gwella effeithlonrwydd ynni yn rhan allweddol o gyflawni'r nodau llesiant a amlinellir yn Neddf 2015. Mae nifer o'r nodau llesiant yn cyfeirio'n benodol at

liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae un o'r dangosyddion cenedlaethol yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni ac yn mesur canran yr anheddau sy'n gwneud yn ddigon da o ran defnyddio ynni'n effeithlon.

Ym mis Awst 2018, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad, *Tai Carbon Isel: yr Her*. Roedd ein hadroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion a oedd â'r nod o ddod â chartrefi presennol i safonau dim carbon, ac adeiladu cartrefi di-garbon ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Mae'n nodi sut y gellir defnyddio cynllunio, rheoliadau adeiladu, a system archwiliadau effeithiol i ddarparu cartrefi carbon isel ar raddfa fawr. Yn ein hadroddiad, gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru, ymhlith pethau eraill i:

- baratoi a chyhoeddi strategaeth tai carbon isel deng mlynedd, a ddylai gynnwys cerrig milltir a thargedau;
- adolygu Rhan L o'r rheoliadau adeiladu, i gynyddu effeithlonrwydd ynni gofynnol cartrefi newydd;
- parhau i fuddsoddi yn ei gynlluniau ôl-osod cyfredol a'u hehangu.

Rydym yn bwriadu mynd ar drywydd rhai o'r materion hyn fel rhan o'n hymchwiliad i dlodi tanwydd yng Nghymru (gweler isod).

Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliadau o fewn dau o'ch saith maes blaenoriaeth:

**Cynllunio - Ymchwiliad i Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft Llywodraeth Cymru**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft ym mis Awst 2019. Fel y gwyddoch, bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn nodi fframwaith defnydd tir 20 mlynedd ar gyfer Cymru. Mae'n ddogfen bolisi allweddol, a fydd yn gosod polisi gofodol cenedlaethol, yn cyfarwyddo Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol, ac yn llywio proses Llywodraeth

Cymru o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio mawr.

Mae'r Pwyllgor yn cynnal ei ymchwiliad cyn cyfnod ystyried statudol y Cynulliad (sydd ar hyn o bryd wedi'i amserlennu rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020) i ddylanwadu ar gynnwys y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft, a llywio unrhyw ddadl arno yn y dyfodol. Cyhoeddir canlyniad ein gwaith yn gynnar yn 2020.

**Tai – Tlodi tanwydd yng Nghymru**

Mae'r Pwyllgor wrthi'n casglu tystiolaeth i lywio ei ymchwiliad i dlodi tanwydd yng Nghymru. Fel rhan o'r ymchwiliad, byddwn yn ystyried pam y methodd Llywodraeth Cymru â chyflawni ei chyfrifoldeb statudol i ddileu tlodi tanwydd erbyn 2018. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn edrych tua'r dyfodol ar gamau ataliol i liniaru'r risg o dlodi tanwydd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, yn enwedig gwella effeithlonrwydd ynni o ran y stoc dai bresennol, a thai newydd.

Anfonwyd gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i lywio ein hymchwiliad i'ch swyddfa ar ddiwedd tymor yr haf 2019. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw dydd Gwener 1 Tachwedd. Gobeithiwn y gallwch chi gymryd rhan yn y gwaith hwn.

Ar nodyn ehangach, mae llawer o waith y Pwyllgor dros y 18 mis diwethaf wedi canolbwyntio ar yr heriau a'r cyfleoedd sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE. Ers mwy na 40 mlynedd, mae'r UE wedi gosod y cyfeiriad ar gyfer polisi a deddfwriaeth o fewn meysydd allweddol o gyfrifoldeb datganoledig sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, sef: amaethyddiaeth, pysgodfeydd a'r amgylchedd. Mae Brexit yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid ailfeddwl am eu dull gweithredu o ran y rhain, ac i ddatblygu polisïau a deddfwriaeth yn y dyfodol yn y meysydd hyn sy'n cefnogi'r nodau llesiant ac yn sicrhau gwell canlyniadau i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud gwaith manwl ar ddefnydd tir a rheoli pysgodfeydd ar ôl ymadael â'r UE, yn ogystal ag ar system newydd ar gyfer llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru. Rydym yn bwriadu mynd ar drywydd y materion hyn ymhellach gyda Llywodraeth Cymru dros y misoedd nesaf, a phan ddaw canlyniad Brexit yn gliriach. O ystyried arwyddocâd y materion hyn yng nghyd-destun ehangach datblygu cynaliadwy, gobeithiwn y byddwch yn awyddus i ymgysylltu â'n gwaith yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol wrth ichi baratoi eich adroddiad.

Yn gywir,

**Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

Ken Skates AC/AM
Lesley Griffiths AC/AM
Kirsty Williams AC/AM

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/P/KS/3306/19

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Hydref 2019

Annwyl Mike,

Hoffem roi rhybudd ymlaen llaw ichi o'r cyfarfod pedairochrog â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar 07 Hydref 2019.

Mae disgwyl i'r bobl ganlynol fod yn bresennol yn y cyfarfod:

- Llywodraeth y DU - Andrea Leadsom AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.
- Llywodraeth yr Alban - Rosanna Cunningham ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir.
- Gogledd Iwerddon - Heb ei gadarnhau, cynrychiolaeth swyddogol.

Roedd y cyfarfod i gael ei gynnal ar 7 Hydref, ond cafodd ei ganslo gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar fyr rybudd. Rydym yn teimlo'n rhwystredig iawn ynghylch y mater hwn, a byddwn yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol i fynegi ein rhwystredigaeth.

Cynrychiolir Llywodraeth Cymru gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig. Bydd y Gweinidogion yn codi materion trawsbynciol sy'n berthnasol i'r Portffolio Addysg.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cytunwyd y byddai'r agenda ddrafft yn cynnwys trafodaeth ynghylch sut i baratoi busnesau a phobl ar gyfer Brexit, rôl y DU wrth daclo'r newid yn yr hinsawdd a'r Strategaeth Ddiwydiannol, yn enwedig y ffordd o weithio sy'n seiliedig ar leoedd. Byddwn hefyd yn tanlinellu'r angen i gryfhau a chynnal cysylltiadau'r Gweinidogion â BEIS trwy strwythurau rhynglywodraethol cadarnach sydd eu hangen ar gyfer diogelu'r setliad datganoli a chadw effeithiau Brexit ar fusnesau a phobl Cymru mor fach â phosibl.


Byddaf yn ysgrifennu Datganiad Ysgrifenedig ar ôl y cyfarfod a fydd yn rhoi crynodeb i'r Aelodau ynghylch y materion a drafodwyd ac yn amlinellu'r safbwyntiau a gafodd eu pwysleisio gan Lywodraeth Cymru.



**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport



**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd  a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



**Kirsty Williams AC/AM**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**National Assembly for Wales**
Economy, Infrastructure and Skills Committee

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig | Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee | < SeneddNHAMG@cynulliad.cymru >

07 Hydref 2019

Annwyl Mike,


Rwy'n ymwybodol bod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn cynnal ymchwiliad eang i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft.

Fel y gwyddoch, mae'r Fframwaith yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau ac felly'n rhannu ar draws cylch gwaith nifer o bwyllgorau. Gan y bydd y Fframwaith yn ddogfen allweddol gyda hyd oes hir, mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn awyddus i'w archwilio hefyd.

Rydym yn bwriadu cynnal sesiwn ar y Fframwaith tua diwedd mis Tachwedd. Yn y sesiwn hon, byddwn yn edrych ar drafnidiaeth a bargeinion dinesig. Deallaf y bydd eich adolygiad â chyrhaeddiad ehangach ac yn fanylach, ond roeddwn i'n awyddus i ysgrifennu'n gyflym atoch i wneud yn siŵr eich bod chi, a'ch pwyllgor, yn ymwybodol o'n cynlluniau er mwyn i ni leihau dyblygu ymdrechion.

Yn gywir

Russell George



Russell George AC
Cadeirydd – Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddESS
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEIS@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEIS
0300 200 6565

**Lesley Griffiths AM/AC**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA – P/LG/3491/19

Mike Hedges,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Ynni a Materion Gwledig
SeneddCCERA@Assembly.Wales

8 Hydref 2019

Annwyl Mike

Hoffwn ddiolch i chi ac aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Ynni a Materion Gwledig am ystyried addasrwydd Syr David Henshaw ar gyfer rôl Cadeirydd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ddydd Iau 26 Medi 2019.

Rwyf wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor yn llawn ac rwy'n derbyn casgliad y Pwyllgor fod Syr David Henshaw yn ymgeisydd addas ar gyfer rôl Cadeirydd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Felly rwyf wedi penderfynu penodi Syr David Henshaw yn Gadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd y penodiad yn dechrau ar 1 Tachwedd 2019, am gyfnod o bedair blynedd gan ddod i ben ar 31 Hydref 2023. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cadw'r cynnig hwn yn gwbl gyfrinachol hyd nes y bydd y cyhoeddiad wedi'i wneud.

Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr gyfraniad amhrisiadwy aelodau'r Pwyllgor yn y broses recriwtio hon. Credaf fod cynnal gwrandawiad cyn penodi yn ychwanegu haen arall o graffu a chadernid i'r broses recriwtio, a fydd yn y pen draw ond yn ychwanegu gwerth i'n gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Pwyllgor am gydweithio'n agos â'm swyddogion i sicrhau bod y broses cyn penodi yn mynd rhagddi'n hwylus.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Leslie.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Leslie.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyn hir byddaf yn cyhoeddi penodi Syr David i rôl cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn gywir
Lesley

**Lesley Griffiths AM/AC**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon